

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ebrill 7fed, 2016 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Ymweliad PCSO Mark Hughes, Heddlu Gogledd Cymru. Croesawyd PCSO Hughes i'r cyfarfod. Newydd symud i'r ardal mae PCSO Hughes ac mae yn gweithio o Orsaf yr Heddlu, Porthmadog a'i ardal yn cynnwys Llanystumdwy a Rhoslan ond roedd yn awyddus i gyflwyno'i hun i'r Cyngor. Oherwydd symudiadau diweddar nid oedd yn siwr pwy o Orsaf yr Heddlu Pwllheli sydd yn edrych ar ôl ardal Chwilog, Llanybi a Rhoslan. Diolchwyd i PCSO Hughes am ddod i'r cyfarfod.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Aled Lloyd Evans; Margaret Griffith; Sian Angharad Parry; William Ifor Hughes; Naomi Jones; Trefor W Jones; Alwen Evans; Thomas Prys Jones, Anwen Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Gwilym M Thomas ac Elis Gwyn Jones.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fawrth 3ydd, 2016.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd Sian Angharad Parry yn datgan buddiant personol yn rhif 6 Cyngor Gwynedd -2 Cais Cynllunio Bron Eifion Fishing Lakes and Lodges ar y rhaglen waith achos mae'n gymydog i'r sawl sy'n gwneud y cais.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Biniau Halen. Nid yw'n hollol glir pryd y bydd y Cyngor yma yn dechrau talu am lenwi'r biniau; felly penderfynwyd gofyn am wybodaeth bellach.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned. Penderfynwyd derbyn y bydd unrhyw waith angenrheidiol ynghlŷn â dŵr ar wyneb y ffordd rhwng Tyddyn Crythor a Betws Fawr ar raglen waith y gweithlu i'w ymgymryd yn ei dro fel bydd llafurlu yn caniatau.

3. Technegydd Cludiant Gweithredol; lloches bws Rhoslan. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud asesiad risg ar lochesi bysiau yng Ngwynedd, yn eu plith lloches bws Rhoslan. Canlyniad hyn yw bod asesiad o berygl yn lloches bws Rhoslan achos bod y to yn isel ac y byddai gosod arwydd tu allan i'r lloches yn dweud *To Isel* yn dod â'r risg i lawr. Penderfynwyd gofyn i Wasg Eryri lunio arwydd dwyieithog a gofyn i Mr Elis Gwyn Jones ei osod uwchben drws y lloches.

4. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; dau e bost oddi wrth y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu ynghylch Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Mae Network Rail am drwsio'r difrod yn Afonwen ddechrau mis Mawrth a bydd y gwaith yn parhau am i fyny at chwech wythnos. Oherwydd cyfnod Etholiad y Cynulliad mae dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheilffordd Arfordir wedi cael ei symud i ddydd Gwener Mai 20fed. Mae'r Cyngorydd Trefor W Jones yn aelod o'r pwyllgor yma. Penderfynwyd derbyn.

5. Cais Rhyddid Gwybodaeth (cyf T15754) ynghylch y Cynllun Adnau, Cynllun CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth bod y costau yn sylweddol iawn ond i beidio â'i wneud yn gyhoeddus ar hyn o bryd.

6. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, tair gohebiaeth. Penderfynwyd derbyn.

7. Gohebiaeth oddi wrth Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir, Gwasanaeth Amgylcheddol. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth y bydd y gwaith ar y bontbren ar lwybr yr arfordir yn Afonwen yn cael ei wneud fel y ceir cyllid i dynnu'r bont oddi yno a gosod cwlfert yn ei lle.

6. Cyngor Gwynedd – 1. Cais rhif C16/0206/41/LL- Cais i godi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo, rhan ohono i ffurfio anecs cysylltiol; Tan Lon, Criccieth. Dim gwrthwynebiad.

2. Cais rhif C16/0138/41/LL – Cais ar gyfer gosod 13 llety gwyliau yn lle 10 caban a charafanau gwyliau, llety rheolwr sy'n cynnwys derbynfa a swyddfa i gymeryd lle llety rheolwr presennol, gosod 5 pod gwersylla, codi adeilad mwynderol a storfa cyfarpar, ac ail-wampio'r safle bresennol a thirweddu; Bron Eifion Fishing Lakes and Lodges, Criccieth. Cefnogi.

\* Trwy ganiatad y Cadeirydd:

3. Cais rhif C16/0303/41/LL – Cais i godi estyniad unllawr ar y cefn; Hafod y Rhos, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

4. Cais rhif C16/0304/41/LL – Cais ar gyfer creu mynedfa newydd; Ty'n Ddol, Llanystumdwy. Cefnogi.

7. Angen cyfethol Cynghorydd dros Ward Rhoslan. Dal heb gael enw. Penderfynwyd holi eto.

8. Cyngor Iechyd Cymuned; gofyn barn am y Gwasanaeth Nyrsio Ardal yng Ngogledd Cymru. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Gwilym M Thomas oedd ganddo sylw. Roedd y Cynghorydd Thomas yn canmol yn arw y gwasanaeth maent yn ei gael fel teulu.

## **9. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

Chwilog/Rhoslan

Llangybi;

Peryglon troi am Lanarmon/Llangybi wrth adael pentref Chwilog. Penderfynwyd gofyn am sylwadau Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

10. Gair gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones ynghylch iaith peiriannau talu am barcio. Penderfynwyd anfon llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd ynghylch hyn; y Cynghorydd Thomas Prys Jones i anfon sylwadau at y Clerc iddo yntau gael ysgrifennu llythyr.

11. Cyflwr y Lôn Goed. Mae'r Clerc wedi cysylltu droeon gyda swyddogion Llwybrau Cyngor Gwynedd ynghylch hyn ac maent wedi addo rhoi sylw iddo. Penderfynwyd anfon i ofyn beth ddaeth o arwydd Y Lôn Goed ger Coed Cae Du oedd wedi malu a Bwrdd Dehongli Ffynnon Cybi rhwng Capel Helyg a'r groesffordd am bentref Llangybi.

12. Angen paentio'r giat at fedd D Lloyd George. Penderfynwyd gofyn i Mr Elis Gwyn Jones ymgymeryd â'r gwaith.

13. Gwlybanaeth ar draws y llwybr ger ceg lôn Gwesty Bron Eifion. Roedd amheuaeth mai gwlybanaeth o waith carffosiaeth ydi hwn ac o'r herwydd roedd y Clerc wedi cysylltu gydag Adran Iechyd ac Amgylchedd Cyngor Gwynedd.

Materion Ariannol.

14. Adroddiad ariannol ar lafar.

15. Penodi Archwiliwr Mewnol a'r trefniadau ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16. Penderfynwyd gofyn i Mr J D Roberts wneud y gwaith yn ôl ei arfer.

16. Anfonebau angen eu talu:

a. Mr J D Roberts, CPFA, Cyfrifydd ac Archwilwr; Tâl am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2014-15 ynghyd â pharatoadau mewn perthynas â chyflwyno Adroddiad Flynyddol i'r Archwiliwr Allanol; £65-, Taliad Siec. Penderfynwyd ei dalu, siec rhif 100934.

b. Aelodaeth Un Llais Cymru 2016/17; £263-, Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

c. Un Llais Cymru; un lle ar gwrs yng Nghaernarfon, £35 - £17.50c, bwrsari = £17.50c, Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

Ch. Delwedd; Costau Lletya a Chynhaliaeth Blynnyddol safle we'r Cyngor; £359.40c + TAW = £431.28, Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

17. Llochesi bws yn y gymuned (9); Cytundeb 3 blynedd i'w glanhau 4 gwaith y flwyddyn. Tri pris i'w drafod. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gosod y gytundeb i Nefyn Cleaning Services Ltd. sydd bellach wedi newid eu henw i Criccieth Cleaning Ltd.

18. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2016 ymlaen.

a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.

b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.

c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.

ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.

d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.

dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

Penderfynwyd gofyn am bris i Atkins Groundworks Ltd., Mr Clifford Hughes a Criccieth Cleaning Ltd, gynt Nefyn Cleaning Services Ltd.

19. Y cais Rhyddid Gwybodaeth. Cais oedd hwn am wybodaeth faint o arian oedd y Cyngor yma am wario ar ddathlu penblwydd arbennig y Frenhines. Penderfynwyd anfon y wybodaeth na fydd dim arian yn cael ei wario ar y dathlu.

20. Dyddiad cyfarfod mis Mai y Cyngor. Bydd cyfarfod mis Mai y Cyngor yn cael ei gynnal ar nos Iau Mai 12fed am 7pm yn ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

\*Trwy ganiatad y Cadeirydd

21. Cais Rhyddid Gwybodaeth (cyf T15754) gwariant Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd o Ebrill 2011 i Fawrth 2015. Trafodwyd hwn yn rhif 5 Cyngor Gwynedd 5.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

